# 9.0 Asedau

Rheoli adeiladau -
Gweithrediadau bob dydd (2)

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Trwyddedu
3. Bwyd
4. Alergenau
5. Rheolau a Chytundebau Llogi
6. Gwybodaeth Bellach


## Cyflwyniad

Bwriad y daflen wybodaeth hon yw rhoi trosolwg o'r prif bethau y bydd angen i reolwyr adeiladau cymunedol eu hystyried mewn perthynas â rhedeg eu hadeilad(au) o ddydd-i-ddydd.

Mae'r wybodaeth yn ymwneud yn benodol â'r canlynol:

- Trwyddedu
- Bwyd
- Rheolau a Chytundebau Llogi

Bydd rhai o'r materion hyn yn berthnasol i bob mudiad, ond bydd eraill yn amrywio yn ôl yr union wasanaethau a gweithgareddau a ddarperir.



Llun: Ystafell wag gyda chadeiriau lliwgar.

Noder, mai diben yr wybodaeth a ddarperir yma yw rhoi trosolwg. Dylai bwrdd ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr eich mudiad bob amser ystyried eu goblygiadau fel y'u nodwyd yn nogfen llywodraethu eu mudiad, ac os nad ydych yn siŵr o unrhyw beth, dylech ofyn am gyngor y cyrff perthnasol a/neu weithwyr cymwys proffesiynol, yn enwedig pan nodir risgiau. Nodir ychydig o ffynonellau allweddol i gael rhagor o wybodaeth mwy manwl ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon.

## Trwyddedu

Mae gan **Ddeddf Drwyddedu 2003** bedwar prif amcan:

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelu plant rhag niwed

Os ydych yn dymuno cynnig eich adeilad(au) cymunedol fel lle(oedd) i werthu neu gyflenwi alcohol neu i ddarparu adloniant wedi'i reoleiddio fel y'i diffinir o dan **Ddeddf Drwyddedu 2003** bydd angen i chi sicrhau ei fod wedi'i drwyddedu'n gywir trwy wneud cais am drwydded berthnasol gan gorff trwyddedu, sef eich awdurdod lleol fel arfer a chael y cais hwnnw wedi'i dderbyn.

Fel rheolwyr adeiladau bydd angen i chi edrych ar y mathau o ddigwyddiadau rydych yn dymuno eu caniatâu a phenderfynu ar y math o drwydded y bydd arnoch ei hangen. Mae dwy fath o drwydded:

- Trwydded Mangre
- Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro (TENS)

## Trwydded Mangre

Yn fras, bydd arnoch angen **Trwydded Mangre** er mwyn:

- Gwerthu alcohol trwy fanwerthu
- Darparu 'adloniant wedi'i reoleiddio'
- Gwerthu lluniaeth gyda'r hwyr

Pan fo **Trwydded Mangre** yn cynnwys gwerthiant alcohol nid oes cyfyngiad ar y nifer o ddigwyddiadau y gellir gwerthu alcohol ynddynt. Ers mis Gorffennaf 2009, nid oes gofyn i adeiladau cymunedol **ddynodi goruchwyliwr dynodedig mangre (DPS**) wrth wneud cais newydd am drwydded mangre, cyn belled â bod y pwyllgor ymgeisio yn llenwi'r ffurflenni priodol ac yn darparu gwybodaeth ddigonol i fodloni'r awdurdod trwyddedu bod y trefniadau rheoli arfaethedig yn cwrdd â gofynion **Deddf Drwyddedu 2003**.

Golyga hyn fod pwyllgor rheoli'r adeilad, yn hytrach nag unigolyn penodol, yn gyfrifol am gynnal y safle. Mae'r mathau o bethau a ystyrir yn 'adloniant wedi'i reoleiddio', yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, perfformiadau cerddorol/ dawns, sioeau ffilm, dramâu, digwyddiadau chwaraeon dan do, ac ati. Mae'n synhwyrol sicrhau bod y drwydded a dderbyniwch yn briodol ar gyfer yr holl opsiynau y dymunwch iddi fod, gan gynnwys gweithgareddau llogwyr presennol a llogwyr posibl. Ceir ystod o weithgareddau yr ystyrir yn eithriadau, gan gynnwys:

- Perfformiadau o gerddoriaeth uchel rhwng 8am ac 11pm ar safle yr awdurdodwyd i werthu alcohol i'w yfed ar y safle
- Ffilmiau sydd wedi'u bwriadu'n bennaf neu'n rhannol er mwyn arddangos cynnyrch, hysbysebu nwyddau neu wasanaeth, neu ddarparu gwybodaeth, addysg neu gyfarwyddyd
- Darllediadau teledu neu radio, cyn belled â'u bod yn cael eu dangos yn fyw a heb eu recordio
- Cyfarfodydd neu wasanaethau crefyddol
- Adloniant mewn mannau addoli crefyddol cyhoeddus
- Garddwestau (oni bai eu bod ar gyfer budd personol)
- Morys-ddawnsiau
- Adloniant o ganlyniad i rywbeth arall – e.e. cerddoriaeth yn ystod dosbarthiadau cadw'n heini

Mae lluniaeth gyda'r hwyr yn golygu darparu bwyd neu ddiod boeth i'r cyhoedd, i'w fwyta/yfed ar neu oddi ar y safle, rhwng 11pm a 5am. Mae'n cynnwys cludfwyd, caffis, mannau gwerthu bwyd cyflym a cherbydau arlwyo symudol. Mae angen i safleoedd sy'n darparu lluniaeth gyda'r hwyr ddal trwydded mangre.

## Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro (TENs)

Gellir cael **Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (TEN)** pan fo safle i'w ddefnyddio ar gyfer un neu fwy o weithgareddau trwyddedadwy ond pan na cheir trwydded mangre ar gyfer y gweithgaredd hwnnw. Ceir cyfyngiadau, serch hynny, o ran y nifer o **TENS** y gellir eu derbyn mewn blwyddyn, fel a ganlyn:

- Gall deiliaid trwydded bersonol dderbyn hyd at 50 mewn blwyddyn
- Gall deiliaid trwydded nad yw'n un bersonol dderbyn hyd at 5 mewn blwyddyn
- Ni ellir rhoi mwy na 15 **TENs** i unrhyw safle penodol mewn unrhyw flwyddyn galendr, yn amodol ar gyfanswm o 21 o ddiwrnodau o hyd mewn unrhyw flwyddyn galendr ar unrhyw safle penodol

Cyhyd a bod y meini prawf a nodir uchod yn cael eu bodloni, dim ond yr heddlu a swyddogion iechyd yr amgylchedd sydd â'r hawl i ymyrryd er mwyn rhwystro digwyddiad neu gytuno ar addasiad i'r trefniadau ar gyfer digwyddiad o dan hysbysiad **TENs**.

## Crynodeb o opsiynau

Gan gadw'r uchod mewn cof ceir tri opsiwn sylfaenol y gallech eu hystyried ar gyfer eich adeilad(au) cymunedol:

- **Peidio â thrwyddedu'ch safle a sicrhau hysbysiadau digwyddiadau dros dro (TENs) bob tro y bydd eu hangen arnoch**. Dyma'r ffordd symlaf, ond drwy wneud hynny mae'n bosibl na fydd gennych drwyddedau yn weddill. Bydd angen i chi gofio ymgeisio mewn pryd, a bydd deiliad y TENs yn gyfrifol am bob digwyddiad, y gellid bod canllawiau llym iawn ynghlwm â hwy.
- **Trwyddedu'ch safle ar gyfer adloniant wedi'i reoleiddio yn unig**. Yn syml a chymharol rad, ond yn gyfyngol gan y bydd angen i chi barhau i ymgeisio am TEN os yw digwyddiad yn cynnwys gwerthiant alcohol neu luniaeth gyda'r hwyr. Gallai preswylwyr lleol neu awdurdodau cyfrifol wrthwynebu a gall y broses ymgeisio bara hyd at ddau fis.

- **Trwydded ar gyfer adloniant wedi'i reoleiddio ac alcohol (a lluniaeth gyda'r hwyr os oes angen)**. Dyma'r opsiwn drytaf ond y mwyaf hyblyg. Bydd yn golygu talu am y cais (seilir y ffi ar werth ardrethol y safle) a gosod hysbyseb yn eich papur lleol. Bydd gofyn i chi dalu ffi flynyddol bob blwyddyn hefyd.

## Trwyddedau eraill

Er mwyn cynnal y math o weithgareddau y mae ar eich cymuned ei eisiau, mae'n bosibl y bydd angen i chi sicrhau trwyddedau eraill yn ychwanegol i'r rhai a ddisgrifir uchod. Mae'r isod yn grynodeb fer o'r rhai a allai fod yn berthnasol:

- **Y Drwydded Gerddoriaeth** – trwydded a fydd yn caniatáu i chi/ eich llogwyr chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio yn eich safle cymunedol. Mae'n dwyn ynghyd y ddwy drwydded yr oedd gofyn amdanynt yn flaenorol gan y **Phonographic Performance Ltd (PPL)** a **Sefydliad y Gymdeithas Hawliau Perfformio (PRS)**. Gweler 'Gwybodaeth Bellach' am fanylion ar sut i ymgeisio am y drwydded hon.
- **Trwyddedau Hapchwarae a Loteri** – os ydych yn cynnal unrhyw fath o raffl neu loteri rheolaidd, yn trefnu sesiynau Bingo neu'n berchen ar unrhyw fath o beiriannau hapchwarae yna mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud cais i'ch awdurdod lleol am drwydded(au).

## Bwyd

Caiff glendid bwyd ei oruchwylio gan yr **Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA)**, Adran annibynnol o'r Llywodraeth sy'n gweithio er mwyn diogelu iechyd a diddordeb ehangach prynwyr mewn bwyd.



Llun: Gwirfoddolwr gyda pharsel bwyd

Ar eu gwefan, cyniga'r **FSA** ganllawiau cynhwysfawr ar ddarpariaeth bwyd gan fudiadau cymunedol ac mewn digwyddiadau elusennol. Rhoddir crynodeb bras o'r canllawiau hyn isod:

## Cofrestru

Os ydych dim ond yn darparu bwyd yn achlysurol ac ar raddfa fechan, mae'n annhebygol y bydd angen i chi gofrestru gydag adran **iechyd yr amgylchedd eich awdurdod lleol** fel busnes bwyd. Fodd bynnag, os byddwch chi'n dechrau gwerthu, coginio, storio/ trafod, paratoi neu ddosbarthu bwyd yn rheolaidd ac mewn modd a drefnir bydd angen i chi gofrestru.

- Mae cofrestru am ddim.
- Caniatewch o leiaf 28 diwrnod cyn cychwyn arni.

Mae'r **FSA** wedi cyhoeddi canllaw ynglŷn â'r hyn y gellid ei ystyried yn 'achlysurol ac ar raddfa fechan' yn hytrach nag 'yn rheolaidd ac wedi'i threfnu'. Isod ceir rhai enghreifftiau a all fod yn berthnasol i reolwyr adeiladau cymunedol:

Annhebygol y bydd angen cofrestru:

- Darpariaeth ddyddiol ar raddfa fechan o fwydydd risg isel, ar brynhawniau yn ystod yr wythnos, gan wirfoddolwyr y gymuned/ elusennau (e.e. darparu te a bisgedi mewn neuadd gymunedol/ neuadd eglwys).
- Clwb brecwast mewn ysgol lle bydd gwirfoddolwyr yn darparu bwydydd brecwast syml fel tost a grawnfwyd a sudd oren ar gyfer plant oed ysgol a/ neu blant bach.

- Digwyddiad mewn neuadd gymunedol a gynhelir tua chwe gwaith y flwyddyn lle gweinir pryd dau gwrs poeth i oddeutu 60 o bobl, gan gynnwys yr henoed. Caiff y bwyd ei goginio gartref gan wirfoddolwyr a'i ailgynhesu yng nghegin y neuadd cyn cael ei fwyta.
- Banc bwyd bychan sy'n gweithredu'n anaml am ddim ond awr neu ddwy bob dydd. Bydd gwirfoddolwyr yn casglu bwyd tun a bwydydd wedi'u pecynnu nad oes angen rheoli'u gwres a roddwyd i gael eu dosbarthu gan bobl leol.
- 'Clwb coginio' lle bydd aelodau'n dod â'r cynhwysion bwyd gyda nhw neu'n talu arweinydd y cwrs i ddod â'r cynhwysion. Mae'r rhai sy'n mynychu yn dysgu coginio gan ddefnyddio cyfarpar yn yr adeilad ac yna'n eistedd gyda'i gilydd i fwyta neu'n mynd â'r bwyd gartref.

Tebygol y bydd angen cofrestru:

- Grŵp ffydd sy'n darparu bwyd poeth am ddim bob mis ar gyfer pobl leol mewn adeilad.
- Caffi cymunedol sy'n agor am dridiau'r wythnos ar sail talwch-beth-gallwch ac sy'n cynnig bwyd wedi'i roi gan fusnesau eraill ac unigolion.
- Clwb chwaraeon sy'n gweini prydau poeth yn rheolaidd yn ystod y tymor.
- Gweithgarwch elusennol gan wirfoddolwyr sy'n trefnu casglu brechdannau'n ddyddiol o archfarchnadoedd i'w dosbarthu i bobl ddigartref.
- Canolfan gymunedol fechan sy'n cyflenwi bwyd poeth am ddim i oddeutu dwsin o bobl ddau amser cinio'r wythnos.
- Gweithgarwch wedi'i redeg gan wirfoddolwyr sy'n darparu cawl poeth a bara i bobl ddigartref bob min nos.

## Hylendid Bwyd

Pa un ai bod angen i chi gofrestru neu beidio bydd angen i chi fodloni gofynion y **Rheoliadau Hylendid Bwyd** sydd ar hyn o bryd yn rhan o gylch gwaith cyfraith yr UE. Os byddwch yn trafod, paratoi, storio a/ neu'n gweini bwyd fel rhan o weithgarwch eich cymuned bydd angen i chi ystyried y canlynol:

- Dylid bod cyfleusterau digonol i baratoi a storio bwyd yn ddiogel.
- Dylai prosesau trafod bwyd osgoi gwneud bwyd yn agored i halogiad mewn unrhyw ffordd.

Rhaid i unrhyw un sy'n gyfrifol am fusnes bwyd:

- Sicrhau bod bwyd a diod yn cael eu paratoi, storio, pecynnu, cludo, cyflenwi neu eu gwerthu mewn modd glanwaith.
- Adnabod peryglon diogelwch bwyd.
- Gwybod pa gamau o weithgarwch paratoi bwyd sy'n allweddol i ddiogelwch bwyd.
- Sicrhau bod rheoliadau diogelwch yn eu lle ac yn cael eu cynnal a'u hadolygu.

Dylai safleoedd bwyd:

- Fod yn lân ac wedi'u cynnal, ac wedi'u cynllunio a'u hadeiladu i ganiatáu arferion hylendid bwyd da.
- Bod â chyflenwad digonol o ddŵr yfed.
- Bod â rheoliadau digonol yn eu lle er mwyn diogelu yn erbyn plâu.
- Bod â goleuo digonol (naturiol a/ neu artiffisial) ynghyd â system awyru ddigonol (naturiol a/neu fecanyddol).
- Darparu tai bach glân, wedi'u hawyru'n ddigonol, gan sicrhau nad ydynt yn arwain yn uniongyrchol i ystafelloedd lle cedwir bwyd.
- Bod â chyfleusterau golchi a sychu dwylo digonol a, lle bo'n briodol, fod â chyfleusterau ar wahân ar gyfer golchi bwyd.
- Bod â system ddraenio ddigonol.

Dylai ystafelloedd lle caiff bwyd ei baratoi gael:

- Arwynebau hawdd eu glanhau (gan gynnwys ffenestri a drysau).
- Cyfleusterau digonol ar gyfer golchi bwyd a chyfarpar ynghyd â chyfleusterau digonol ar gyfer storio a gwaredu sylweddau a gwastraff bwyd peryglus a/neu anfwytadwy.

Rhaid i'r rheini sy'n trafod bwyd dderbyn goruchwyliaeth, cyfarwyddyd a/ neu hyfforddiant mewn hylendid bwyd. Gall gwasanaeth **iechyd yr amgylchedd eich cyngor lleol** ddarparu cymorth a chyngor pellach, ac mae rhai hefyd yn cynnal cyrsiau hyfforddi.

Cofiwch y bydd angen i logwyr eich adeilad cymunedol ddilyn y rheoliadau hylendid yn ogystal (er mai pwyllgor rheoli'ch adeilad fydd yn gyfrifol yn y pen draw, wrth gwrs). Sicrhewch eich bod yn eu hysbysu o hyn a rhowch gopïau iddynt o unrhyw ganllawiau a ddarparwyd. Mae'n ddefnyddiol cael gafael ar bamffled sy'n rhestru'r gofynion sylfaenol.

Mae'n rhaid i geginau mewn canolfannau sydd wedi'u cofrestru fel safleoedd bwyd gwrdd â safonau uwch. Gallai'r rhain gynnwys bod â theils neu ddur gwrthstaen ar waliau, system awyru bwerus a mwy o sinciau.

# Alergenau

Os nad oes angen i'ch gweithgarwch gael ei gofrestru fel busnes bwyd, nid oes angen i chi gyflwyno gwybodaeth i ddefnyddwyr ynglŷn â'r alergenau sy'n bresennol fel cynhwysion yn y bwyd. Fodd bynnag, mae'r **FSA** yn argymell eich bod yn gwneud hynny fel arfer orau. Os ydych yn fusnes bwyd cofrestredig, bydd angen i chi ddilyn y rheolau alergenau (i weld y rhain ewch i wefan yr **FSA**).

## Awgrymiadau Diogelwch Bwyd

- Paratowch fwyd o flaen llaw a'i rewi, os gallwch, ond sicrhewch fod y bwyd wedi dadrewi'n iawn cyn ei ddefnyddio.
- Golchwch eich dwylo yn rheolaidd â dŵr a sebon, gan ddefnyddio hylif diheintio dwylo os nad oes cyfleusterau golchi dwylo ar gael.
- Golchwch lysiau a ffrwythau ffres bob amser.
- Cadwch fwyd amrwd a pharod i'w fwyta ar wahân.
- Peidiwch â defnyddio bwyd ar ôl ei ddyddiad defnyddio olaf.
- Darllenwch gyfarwyddiadau coginio a sicrhewch fod bwyd wedi'i goginio'n gywir cyn ei weini.
- Sicrhewch fod ardaloedd paratoi bwyd wedi'u glanhau a'u diheintio'n briodol ar ôl eu defnyddio a golchwch unrhyw gyfarpar a ddefnyddir gennych mewn dŵr sebon poeth.
- Cadwch fwyd allan o'r oergell am yr amser byrraf posibl.

## Bwyd wedi'i gadw'n oer

Ni ddylid cadw bwyd sydd angen ei gadw'n oer, megis llenwadau brechdanau a weinir fel rhan o fwffe, allan o'r oergell am fwy na phedair awr. Ar ôl yr amser hwn, dylid taflu unrhyw fwyd sy'n weddill i ffwrdd neu ei roi yn ôl yn yr oergell. Os ydych yn rhoi'r bwyd yn ôl yn yr oergell, peidiwch â'i adael i sefyll ar dymheredd yr ystafell pan fyddwch yn ei weini eto.

## Dyddiadau defnyddio olaf

Mae dyddiadau defnyddio olaf yn dangos am ba mor hir mae'r bwyd yn parhau'n ddiogel i'w fwyta neu ei yfed. Gwiriwch a dilynwch ddyddiadau defnyddio olaf y bwyd a weinir gennych. Ni ellir cyflenwi bwyd o dan unrhyw amgylchiadau os yw ei ddyddiad defnyddio olaf wedi bod. Mae hyn hefyd yn berthnasol os ydych yn darparu pobl â bwyd wedi'i becynnu o fanc bwyd.

## Bwyd sydd angen gofal ychwanegol

Mae rhai bwydydd yn fwy tebygol o achosi gwenwyn bwyd nag eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llaeth amrwd
- pysgod cregyn amrwd
- caws meddal
- pâté
- bwydydd sy'n cynnwys wyau amrwd
- cigoedd wedi'u sleisio a'u coginio

Os ydych yn gweini unrhyw rai o'r bwydydd hyn, darllenwch adran 'Bwydydd sydd angen gofal ychwanegol' yn y pecyn 'Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell' a gynhyrchir gan yr **FSA** (gweler y cyfeiriad ato isod).

## Rheolau a Chytundebau Llogi

Fel rheolwr adeilad cymunedol bydd hi'n bwysig i chi ddatblygu set o reolau ysgrifenedig y bydd pob gweithiwr yn barod i lynu atynt, yn ogystal â chynhyrchu cytundeb llogi ysgrifenedig ar gyfer gosod yr adeilad.

Dylai'r rheolau ar gyfer y defnydd o'r adeilad gael eu datblygu gan eich pwyllgor rheoli mewn trafodaethau â defnyddwyr yr adeilad a rhanddeiliaid allweddol eraill fel y bo'n briodol. Dylid anfon copi at bob llogwr a'i arddangos mewn lle amlwg o fewn yr adeilad.

Gellir lawrlwytho setiau enghreifftiol o reolau o'r we, yn ogystal ag esiamplau gan adeiladau cymunedol eraill. Byddai'n dda o beth cyfeirio at y rhain, ond mae'n siŵr y byddai'n well i chi ddyfeisio'ch set o reolau eich hun yn seiliedig ar eich amgylchiadau unigryw.

Ceir rhestr o bethau allweddol i'w hystyried isod:

- Rhagarweiniad sy'n cyflwyno'r darllenydd i'r mudiad.
- Datganiad byr sy'n amlinellu polisi eich mudiad ar 'Cydraddoldebau' a 'Hygyrchedd'.
- Sut gall grŵp fynd ati i wneud cais i logi eich adeilad(au).
- Oriau agor.
- Yr uchafswm o bobl y gellir eu cael ym mhob ystafell.
- **Canllawiau Iechyd a Diogelwch** a **Diogelwch Tân**.
- Goruchwylio a diogelu.
- Rheolau ynglŷn ag yfed a gwerthu alcohol.
- Rheolau ynglŷn â betio, hapchwarae a loterïau.
- Y mathau o adloniant a gynhelir y gallai fod angen trwydded ar eu cyfer.
- Defnydd o gerddoriaeth wedi'i recordio a **thrwyddedu PPL**.
- Y defnydd o storfeydd sydd ar gael.
- Glanhau a diogelwch.
- Colli eiddo a difrod.
- Trefniadau parcio ceir.
- Rheolau ar adael cŵn i mewn i'r adeilad.
- Niwsansau e.e. sbwriel.

Unwaith y bydd gennych set glir o reolau yn eu lle byddwch mewn sefyllfa dipyn gwell i sefydlu'ch 'Cytundeb Llogi' sydd, i bob pwrpas, yn gytundeb busnes. Bydd angen i delerau'r llogi gael eu hamlinellu'n glir iawn, felly, a bydd hi'n bwysig sicrhau bod y llogwr wedi'u darllen, yn eu deall ac yn eu harwyddo ar y cyd â chithau/ yr unigolyn o'ch mudiad sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig dros arwyddo yn eich lle.

Cyn i chi logi'ch adeilad allan i fudiad arall bydd hi hefyd yn bwysig sicrhau eich bod yn gweithredu o fewn cytundebau eich prydles a/ neu'r gyfraith mewn perthynas â thrwyddedu, cyfraith gynllunio, cyfyngiadau sŵn, ac ati. Eto, gallwch ddod o hyd i ddigonedd o enghreifftiau o gytundebau llogi ar y we. Byddai cytundeb nodweddiadol yn cynnwys:

- Enw'r adeilad cymunedol perthnasol.
- Dyddiad ar y cytundeb.
- Diben llogi.
- Cyfnod llogi – dyddiad(au) ac amser(oedd).
- Ystafell(oedd) a chyfleusterau i'w llogi.
- Ffi llogi.
- Datganiad yn cadarnhau bod y llogwr yn cytuno i gadw at reolau'r mudiad ac amodau safonol y llogi (y bydd angen eu hatodi).
- Enw cynrychiolydd eich mudiad, cyfeiriad a manylion cyswllt.
- Enw'r llogwr, cyfeiriad a manylion cyswllt.

## Gwybodaeth bellach

### Trwyddedu

**Y Drwydded Gerddoriaeth**
**PPL a PRS**
https://pplprs.co.uk/what-is-themusiclicence/

### Bwyd

**Darparu Bwyd mewn Digwyddiadau Cymunedol ac Elusennol**
**Asiantaeth Safonau Bwyd**
https://www.food.gov.uk/safety-hygiene/providing-food-at-community-and-charity-events

**Cydnabyddiaeth:**
Mae rhywfaint o'r canllawiau uchod wedi'u tynnu a'u crynhoi i'w defnyddio o:
'Managing Your Community Building' gan Community Matters a Peter Hudson (2000)

Cefnogi Trydydd Sector **Cymru**

Third Sector Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.